WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 - **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 312A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys Carol Mosely, Michelle Phoenix, Anthony Veale, Fflur Jones a Dave Thomas.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 7

Adran 1: archwilio cyfrifon 8

Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio 8

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 10

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd i fantoli'r cyfrifon yn 2016-17, ac wedi gwella ei threfniadau ar gyfer cynllunio, monitro a chyflawni arbedion. Serch hynny, mae angen iddi ddibynnu llai ar arbedion trafodaethol a chraffu'n fanylach ar gynlluniau sy'n tangyflawni 11

Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i atgyfnerthu ei threfniadau cynllunio a llywodraethu, byddai'n fuddiol iddi gyflymu'r broses o newid mewn rhai meysydd allweddol 13

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i welliant parhaus, ond nid yw'n gweithredu newidiadau yn ddigon cyflym 17

Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 21

Atodiad 2 – y ffi archwilio 22

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'm gwaith archwilio yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2017. Cwblheais y gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Yn fy ngwaith archwilio bûm yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol a'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sydd o flaen y Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r adroddiadau ar wahân a luniwyd gennyf yn ystod y flwyddyn yn cynnwys mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy ngwaith archwilio. Rydym yn trafod yr adroddiadau hyn ac yn cytuno â swyddogion ar eu cywirdeb ffeithiol cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio. Gellir gweld fy adroddiadau yn Atodiad 1.

3 Rhoddwyd cyfle i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wneud sylwadau ynghylch cywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynir gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 8 Mawrth 2018. Cyflwynir yr adroddiad i'r Bwrdd yng nghyfarfod dilynol y Bwrdd, gan roi copi i bob aelod. Anogwn yr Ymddiriedolaeth yn gryf i drefnu bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, byddwn yn darparu'r adroddiad i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau a ganlyn.

### Adran 1: archwilio cyfrifon

5 Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio Canolbwyntiai'r materion hyn ar y gwelliannau sydd eu hangen i rai agweddau ar ansawdd arferion cyfrifyddu'r Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau i gefnogi cyfrifyddu a stiwardiaeth ar ei heiddo, ei hoffer a'i chyfarpar, yn ogystal â'r broses ar gyfer pennu tâl uwch reolwyr a darparu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad ar daliadau.

6 Rwyf hefyd wedi casglu bod cyfrifon y Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi mewn modd priodol a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.

7 Wrth gyflawni fy ngwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Ymddiriedolaeth a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

8 Yr wyf wedi archwilio trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a rheoli arian, ei threfniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i chynnydd o ran y materion i'w gwella a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Gwneuthum hyn er mwyn fy modloni fy hun fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei hadnoddau. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiad Archwilio Perfformiad yn dilyn fy adroddiad yn 2015 ar Faterion a Godwyd mewn Gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol. Nodir fy nghasgliadau'n seiliedig ar y gwaith hwn isod.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd i fantoli'r cyfrifon yn 2016-17, ac wedi gwella ei threfniadau ar gyfer cynllunio, monitro a chyflawni arbedion. Serch hynny, mae angen iddi ddibynnu llai ar arbedion trafodaethol a chraffu'n fanylach ar gynlluniau sy'n tangyflawni

9 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd i fantoli'r gyllideb yn 2016-17, ac wedi cyflawni’n well o ran arbedion dros y tair blynedd diwethaf, ond mae llwyddiant cynlluniau unigol yn amrywio'n helaeth.

10 Ceir ymagwedd gryfach at arbedion, a lefel uwch o arbedon cylchol, ond yn wyneb pwysau ariannol cynyddol, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ganfod cynlluniau mwy gweddnewidiol er mwyn sefydlu ymagwedd fydd yn gynaliadwy yn y tymor hir.

11 Mae'r trefniadau atebolrwydd a monitro hefyd wedi'u cryfhau. Fodd bynnag, ni cheir craffu digon manwl ar gynlluniau arbed unigol ar lefel pwyllgor.

12 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i ymateb i argymhellion blaenorol ynghylch cynlluniau arbed a rheolaethau rheoli asedau, ond mae mwy o waith i'w wneud.

### Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i atgyfnerthu ei threfniadau cynllunio a llywodraethu, byddai'n fuddiol iddi gyflymu'r broses o newid mewn rhai meysydd allweddol

13 Mae'r ymagwedd at gynllunio'n strategol yn parhau i aeddfedu ac mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu strategaeth hirdymor yn ogystal â'i hymagwedd at reoli newid mewn modd strategol.

14 Mae strwythur adrannau clinigol a gweithredol yn cryfhau, ond mae adeiladu capasiti mewn swyddogaethau corfforaethol yn parhau i fod yn her.

15 Mae cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol ac yn agored ar y cyfan, ond mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau ar yr un cyflymder i gryfhau sawl maes llywodraethu.

16 Mae'r strategaeth rheoli risg newydd yn cael ei hymwreiddio ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a gymeradwywyd yn ddiweddar.

17 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, ac ar gyfer cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth newydd erbyn mis Mai 2018, ond mae ganddi fwy o waith i'w wneud.

18 Mae trefniadau monitro perfformiad wedi'u datblygu'n dda ac yn cryfhau o hyd, ac wrth i'r Ymddiriedolaeth berfformio'n dda yn erbyn galwadau coch, ceir mwy o ganolbwyntio ar berfformiad yn erbyn galwadau ambr.

19 Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI i ganfod achosion o dwyll a gordalu, ond ceir cyfle i wella hyn yn sgil penodi swyddog atal twyll newydd yn ddiweddar.

20 Ceir cynnydd da wrth ymdrin â mwyafrif y materion a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n ddigon cyflym i ymdrin â'r argymhellion sy'n weddill.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i welliant parhaus, ond nid yw'n gweithredu newidiadau yn ddigon cyflym

21 Mae'r weledigaeth yn cryfhau ar gyfer ystadau, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynllunio'r gweithlu, ond mae rheoli asedau ac absenoldeb salwch yn parhau i fod yn her.

22 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau priodol i weithredu'r argymhellion a wnaed gennyf yn adroddiad Rhagfyr 2015 ar Faterion na Godwyd mewn Gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw wedi gweithredu'n ddigon cyflym er mwyn ymateb i argymhellion archwilio mewnol ynghylch cyfarpar sydd wedi dyddio.

23 Mae trefniadau comisiynu cydweithredol wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran y gwasanaethau ambiwlans argyfwng yng Nghymru; wrth i'r trefniadau aeddfedu, fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid.

24 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn archwilio.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

25 Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau bwrdd yr Ymddiriedolaeth nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Tachwedd 2017.

26 Yr wyf yn cyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004[1]. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli; a

c) fy modloni fy hun fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

27 Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed yn rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf ar gyfer Ymddiriedolaeth, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
- archwiliadau perfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

28 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1.

29 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- adran 1: archwilio cyfrifon
- adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

30 Yn Atodiad 2 dangosir yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwilio cyfrifon

31 Yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.

32 Wrth ystyried datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, y mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill, ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Daliadau wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â'r datganiadau; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

33 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio

### Mae cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi mewn modd priodol, a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

34 At ei gilydd, cefais fod yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth i gefnogi'r datganiadau ariannol yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn gymharol hawdd i'w deall. Cawsom y datganiadau ariannol drafft yn unol â'r terfynau amser a ragnodwyd. Daethom i'r casgliad bod polisïau ac amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol, a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddi-duedd, yn deg ac yn glir.

35 Yn ogystal â hynny, gwelais fod gwelliannau wedi'u cyflwyno i'r papurau gwaith ac i ansawdd y cyfrifon drafft, ond gellid gwella eto yn 2017-18. Cytunwyd yn ddiweddarach â swyddogion ar yr argymhellion i gefnogi'r gwelliannau.

36 Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 1 Mehefin 2017. Gan gydnabod bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno gwelliannau yn 2016-17, adroddais fod angen amryw o welliannau pellach yn rhai agweddau ar ansawdd arferion cyfrifyddu'r Ymddiriedolaeth. Roedd a wnelo'r rhain yn bennaf â threfniadau'r Ymddiriedolaeth i gefnogi cyfrifyddu a stiwardiaeth ar ei heiddo, ei hoffer a'i

chyfarpar, yn ogystal â'r broses ar gyfer pennu tâl uwch reolwyr a darparu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad ar daliadau.

37 I gyd-fynd â'm Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol, adroddais hefyd ar argymhellion penodol a ddeilliai o'm gwaith archwilio ariannol. Cytunwyd â swyddogion yr Ymddiriedolaeth ar yr argymhellion hyn, ac fe'u hadroddwyd ym Memorandwm y Cyfrifon Terfynol i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2017 ynghyd ag ymateb cysylltiedig gan y rheolwyr. Ceir crynodeb o'r prif faterion yn Nangosyn 1.

Dangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl a ganlyn yn cynnwys crynodeb o'r prif faterion a nodwyd, a sylwadau arnynt.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Eiddo, Offer a Chyfarpar (EOCh) | O blith y materion a nodwyd yn gysylltiedig â phrosesau cyfrifyddu ar gyfer EOCh, yr oedd y prif faterion yn y meysydd a ganlyn:<br>• sicrhau bod y gofrestr asedau yn cael ei diweddaru'n amserol er mwyn cael gwared â'r holl EOCh a chanddynt werth sero net yn y llyfrau, ac a waredwyd yn flaenorol;<br>• adolygu categorïau'r asedau a ddatgelwyd ar y gofrestr asedau er mwyn sicrhau bod asedau'n cael eu dosbarthu'n gywir;<br>• sicrhau bod asedau a ddatgelir ar y gofrestr asedau wedi'u cyfeirnodi'n briodol i gefnogi gwaith i ddilysu'r asedau hynny; ac<br>• mae angen cynnal adolygiad amserol o'r asedau a brynwyd ac a ddosbarthwyd ar unwaith yn asedau sy'n cael eu hadeiladu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hailddosbarthu wrth iddynt ddod yn weithredol.<br>Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi prynu cofrestr asedau sefydlog newydd ac ar ganol gweithredu'r gofrestr honno. |
| Adroddiad ar daliadau | Yn ein harchwiliad, canfuom nifer o ddiwygiadau a datgeliadau yn ychwanegol at y nodyn ar daliadau, a weithredwyd yn ddiweddarach gan yr Ymddiriedolaeth. Yn y blynyddoedd nesaf, argymhellwyd y dylid gwirio a chytuno ag uwch swyddogion ar y datgeliadau a gynhwysir yn nrafft yr adroddiad ar daliadau cyn cyflwyno'r adroddiad hwnnw i'w adolygu gan gyfarwyddwyr ac aelodau annibynnol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar yr argymhelliad hwn, a bydd y Pwyllgor Taliadau yn cynnal adolygiad o'r argymhelliad hwn a'r taliadau drafft. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion eraill | Cytunwyd â'r Ymddiriedolaeth ar nifer o'r argymhellion eraill yn gysylltiedig â'r gwelliannau sydd eu hangen mewn rhai papurau gwaith, a'r gwiriadau ychwanegol y mae angen i'r Ymddiriedolaeth eu cynnal er mwyn sicrhau bod datgeliadau partïon cysylltiedig yn fanwl gywir a chyflawn. |

38 Mae fy archwiliad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi'i gwblhau'n amodol ar dderbyn y datganiadau ariannol wedi'u llofnodi gan yr Ymddiriedolaeth, ac ar ardystiad dilynol Archwilydd Cyffredinol Cymru o adroddiad yr archwilydd annibynnol. Gan ein bod wedi cwblhau ein gwaith maes, cyflwynwyd adroddiad gennym gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 7 Rhagfyr 2017 a ddangosai nad oedd unrhyw faterion yn codi o'm harchwiliad annibynnol.

### Wrth gyflawni fy ngwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth

39 Bûm yn adolygu rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth a ystyriwyd yn berthnasol gennyf i'r archwiliad, i'm helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau'n gysylltiedig â chamddatganiadau o bwys yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni roddais ystyriaeth iddynt er mwyn cyfleu barn ynghylch effeithiolrwydd wrth weithredu rheolaethau mewnol. Ni chefais hyd i unrhyw ddiffygion o bwys yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

40 Y mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Cyflawnais amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu cynlluniau a chyflawniad yr Ymddiriedolaeth o ran arbedion ariannol, a'r modd y cyfrannodd hynny at fantoli'r cyfrifon;
- asesu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn Asesiad Strwythuredig y llynedd;
- asesu gwaith paru data yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI);
- archwilio'r trefniadau llywodraethu o fewn y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys;
- adolygiadau archwilio lleol, sy'n cynnwys gwaith dilynol ar ganfyddiadau ac argymhellion archwilio yn gysylltiedig â Materion a Godwyd mewn Gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol; ac

- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol.

41 Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith y cyfeirir ato uchod o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd i fantoli'r cyfrifon yn 2016-17, ac wedi gwella ei threfniadau ar gyfer cynllunio, monitro a chyflawni arbedion. Serch hynny, mae angen iddi ddibynnu llai ar arbedion trafodaethol a chraffu'n fanylach ar gynlluniau sy'n tangyflawni

42 Yn ogystal â gwneud sylwadau am sefyllfa ariannol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, yn rhan o'm gwaith asesu strwythuredig yn 2017, ystyriais y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r cyfrifon a chreu cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Yr wyf hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion sy'n ymwneud ag rheoli arian mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd i fantoli'r gyllideb yn 2016-17, ac wedi cyflawni'n well o ran arbedion dros y tair blynedd diwethaf, ond mae llwyddiant cynlluniau unigol yn amrywio'n helaeth

43 Y mae'n ddyletswydd statudol ar Ymddiriedolaethau'r GIG i gydbwyso eu hincwm a'u gwariant (mantoli'r cyfrifon) dros gyfnod treigl o dair blynedd. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i wneud hynny yn 2014-15, yn 2015-16 ac eto y 2016-17. Er bod diffyg bach wedi'i ragweld yn ystod y flwyddyn, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni ei dyletswydd â mantoli'r cyfrifon, gan lwyddo hyd yn oed i sicrhau swm bychan o £49,000 mewn arian dros ben ar ddiwedd y flwyddyn. Sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth arbedion o £4.7 miliwn erbyn diwedd 2016-17 yn erbyn targed o £5.2 miliwn.

44 Mae targed i arbed £4.9 miliwn wedi'i osod ar gyfer 2017-18. Yn y seithfed mis roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni £2.64 o arbedion yn erbyn targed hyd hynny yn y flwyddyn o £2.85 miliwn. Er iddi adrodd diffyg bach o £41,000 yn y seithfed mis, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn llwyddo i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.

45 At ei gilydd, mae targedau arbed yr Ymddiriedolaeth wedi amrywio rhwng 3.1% a 4.1% o'r gwariant cynlluniedig dros y tair blynedd diwethaf. Mae cyflawniad gwirioneddol y targedau arbed wedi gwella o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Fodd bynnag, roedd llwyddiant y cynlluniau arbed unigol yn amrywio'n helaeth yn 2016-17, a'r hyn a arweiniodd at y llwyddiant i sicrhau 91% o'r arbedion a gynlluniwyd gan yr Ymddiriedolaeth y flwyddyn honno oedd gorgyflawniad sylweddol mewn nifer fach o gynlluniau wedi'i osod yn erbyn tangyflawniad mewn nifer fawr o gynlluniau eraill.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei hymagwedd at arbedion, ac wedi cynyddu lefel yr arbedion cylchol, ond yn wyneb pwysau ariannol cynyddol, bydd angen canfod cynlluniau mwy gweddnewidiol er mwyn sefydlu ymagwedd fydd yn gynaliadwy yn y tymor hir

46 Yn ystod 2016-17, cynyddodd yr Ymddiriedolaeth gyfranogiad ei gwasanaethau cymorth corfforaethol mewn gwaith cynllunio a sicrhau arbedion. Eleni, y mae wedi adeiladu eto ar wersi a ddysgwyd drwy drefnu cynlluniau arbed mawr o dan themâu, wedi'u cefnogi gan gynlluniau manwl sy'n nodi meysydd arbed unigol.

47 Yn gyson, mae'r Ymddiriedolaeth wedi lleihau ei dibyniaeth ar arbedion anghylchol dros y tair blwyddyn diwethaf. Fodd bynnag, yng nghynlluniau arbed yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17 a 2017-8 canolbwyntiwyd yn bennaf ar gynlluniau rheoli gweithredol a rheoli costau, a byddai'n fuddiol iddi ganolbwyntio mwy ar foderneiddio gwasanaethau.

48 Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n frwd i ddatblygu gwybodaeth drwy adolygu ymagweddau sefydliadau eraill at reoli arbedion, a thrwy archwilio cyfleoedd i feincnodi'n fewnol ac yn allanol, er bod lle i ddatblygu mwy ar ei drefniadau i feincnodi'n allanol.

49 Ar gyfer 2017-18, mae'r Ymddiriedolaeth wedi atgyfnerthu ei hymagwedd at gyflawni arbedion, gan nodi Cyfarwyddwyr Gweithredol yn arweinwyr ar gyfer pob cynllun unigol. Hyd yma yn 2017-18, mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran cyflawni arbedion yn gryfach nag yn 2016-17, sy'n adlewyrchu trefniadau gwell yr Ymddiriedolaeth ar gyfer canfod a chyflawni arbedion.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei threfniadau atebolrwydd a monitro, ond ni cheir craffu digon manwl ar gynlluniau arbed unigol ar lefel pwyllgor

50 Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Grŵp Cyllid Gweithredol (GCG) yn ystod 2016-17 i adolygu arbedion a chynaliadwyedd drwy'r holl Ymddiriedolaeth. Mae'r GCG yn derbyn gwybodaeth am gynnydd cynlluniau arbed drwy adroddiadau misol ar y Prif Bwyntiau Arbed  Uchafbwyntiau Arbed. Mae'r ymagwedd newydd hon yn cryfhau'r atebolrwydd ar gyfer cyflawni cynlluniau arbed ar lefel weithredol ac yn hyrwyddo deialog traws-sefydliadol ynghylch arbedion.

51 Mae lefel yr wybodaeth am arbedion yn ddigonol i gefnogi trefniadau craffu, a bydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn derbyn y newyddion diweddaraf yn rheolaidd am berfformiad ariannol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys cyflawni arbedion. Serch hynny, prin yw'r dystiolaeth o graffu a herio o fewn y Bwrdd, ac er bod y Pwyllgor yn herio perfformiad cyffredinol yn erbyn y cynllun arbed, anaml y bydd yn craffu ar gynlluniau arbed penodol sydd yn tangyflawni.

52 Ystyrir y risgiau posibl yn gysylltiedig â chynlluniau arbed o ran perfformiad ac/neu ansawdd gwasanaethau yn ystod cam cynllunio'r cynlluniau arbed. Fodd bynnag, ni chaiff newidiadau o ran risg na risgiau sy'n dod i'r amlwg eu cynnwys yn rheolaidd yn adroddiadau'r Ymddiriedolaeth ar arbed.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i ymateb i argymhellion blaenorol ynghylch y cynlluniau arbed a'r rheolaethau rheoli asedau, ond mae mwy o waith i'w wneud

53 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu cynlluniau cyflawni i gefnogi rhaglenni lleihau costau, gyda chynlluniau manwl yn sail i bob 'thema' arbed. Mae'r cynlluniau hyn yn cydnabod sut mae sawl cynllun unigol yn cyfrannu at thema neilltuol. Ceir trywydd clir sy'n cysylltu cynlluniau arbed o ddeilydd y gyllideb hyd at y cynllun arbed unigol a hyd at y thema arbed gyffredinol. Fodd bynnag, ceir meysydd lle gallai'r Ymddiriedolaeth wella ei hymagwedd at arbedion eto, ee drwy graffu'n well ar achosion o dangyflawni wrth arbed.

54 Gall yr Ymddiriedolaeth hefyd ddangos cynnydd wrth gryfhau ei rheolaeth o ran rheoli asedau, ond mae'n dal heb fynd i'r afael ag amryw o'r problemau a nodwyd yn 2015-16, a nodwyd problemau pellach yn sgil gwaith eleni. Adroddwyd y rhain ym Memorandwm Cyfrifon Terfynol 2016-17 (fel yr amlinellir yn Nangosyn 1) a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ym mis Rhagfyr, ynghyd ag ymateb rheoli'r Ymddiriedolaeth. Yn yr ymateb hwnnw disgrifir y camau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn eu cymryd i ymdrin â'r materion a godwyd, ynghyd â'r camau y mae angen iddi eu cymryd o hyd er mwyn ymdrin â'r holl faterion a nodwyd yn llawn.

## Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i atgyfnerthu ei threfniadau cynllunio a llywodraethu, byddai'n fuddiol iddi gyflymu'r broses o newid mewn rhai meysydd allweddol

55 Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig bûm yn asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â materion gwella ac argymhellion mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

### Mae ymagwedd yr Ymddiriedolaeth at gynllunio'n strategol yn parhau i aeddfedu ac mae'n datblygu ei strategaeth hirdymor a'i hymagwedd at reoli newid mewn modd strategol

56 Eleni, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) yr Ymddiriedolaeth am ail flwyddyn yn olynol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dysgu ers iteriad cyntaf ei CTCI yn 2016-17, ac mae ganddi uchelgais i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer 2017-30. Dengys hyn aeddfedrwydd cynyddol yn ei chynlluniau strategol. Fodd bynnag, er bod yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu ynghylch datblygu ei hymagwedd at reoli newid yn strategol, mae ei chynnydd y llai nag a fwriadwyd. Cafwyd llithriant hefyd yn erbyn rhai o gamau gweithredu CTCI yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2016-17 ac yn Chwarter Cyntaf 2017-18 oherwydd problemau capasiti.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau strwythur ei hadrannau clinigol a gweithredol, ond mae meithrin capasiti mewn swyddogaethau corfforaethol yn parhau i fod yn her

57 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth newidiadau i strwythur trefniadol dwy adran allweddol yn ystod 2016-17 er mwyn cryfhau ei hadran glinigol ac annog cydweithio gwell ar draws ffiniau ar lefel weithredol. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol wedi croesawu'r newidiadau hyn. Fodd bynnag, er bod rhai newidiadau wedi'u cyflwyno i swyddogaethau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, mae capasiti swyddogaethau corfforaethol yn cael ei ymestyn ac yn parhau arafu unrhyw ymdrech gan yr Ymddiriedolaeth i ysgogi newid strategol o dan y CTCI. Dylai'r adolygiad arfaethedig o swyddogaethau cefn swyddfa'r Ymddiriedolaeth yn 2018 fod yn gyfle i nodi a chynllunio i fynd i'r afael ag anghenion capasiti mewn rhai meysydd corfforaethol.

### Mae cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol ac yn agored ar y cyfan, ond mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau ar yr un cyflymder i gryfhau sawl maes llywodraethu

58 Mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar nodi ac ymdrin ag anghenion datblygu aelodau Bwrdd, fydd yn cefnogi parhad wrth drosglwyddo'r awenau i Gadeirydd newydd yn 2018.

59 At ei gilydd, mae cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor yn parhau i weithredu'n effeithiol, a dylai hunanasesiadau diweddar a gwaith i feincnodi pwyllgorau arwain at fwy o eglurder ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mapio'r is-grwpiau sy'n gweithredu o dan ei Phwyllgor Ansawdd, Profiadau Cleifion a Diogelwch ac mae ganddi gynlluniau i ehangu'r ymarfer hwn ar draws meysydd craffu a sicrwydd eraill, gan fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar risg, a dechrau gyda Thechnoleg Gwybodaeth yn 2018.

60 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo Polisi ar gyfer Datblygu, Adolygu a Chymeradwyo Polisïau (a elwir hefyd yn 'bolisi ynghylch polisïau'). Fodd bynnag, mae'n cydnabod y bydd hi'n cymryd cryn amser i adolygu a diweddaru'r polisïau cyfredol sydd wedi dyddio.

61 Amlygai ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2016 nad oedd rhai eitemau allweddol i'w cael yn rhwydd ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn unol á gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033. Mewn adolygiad pellach yn rhan o waith eleni, gwelir bod hyn yn broblem o hyd. Amlygai Asesiad Strwythuredig 2016 hefyd broblemau'n gysylltiedig ag amseroldeb papurau pwyllgor. Cafwyd rhywfaint o welliant o ran amseroldeb ac ansawdd papurau pwyllgor yn ystod 2016-17, ond ceir achosion o hyd o bapurau'n cael eu cyflwyno'n hwyr, ac mae cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth wella papurau pwyllgor eto, ee drwy ganolbwyntio mwy ar sicrwydd.

62 Roedd Asesiad Strwythuredig 2016 yn cynnwys nifer o arsylwadau'n gysylltiedig â rhestr olrhain y Pwyllgor Archwilio. Yn ystod 2017, bu'r Ymddiriedolaeth yn adolygu diben y rhestr olrhain, y berchnogaeth arni, a'r camau a oedd wedi'u cynnwys ynddi. Er bod hyn yn gynnydd addawol, gallai'r Ymddiriedolaeth roi eglurhad pellach o'r camau ar y rhestr olrhain. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau ei rhaglen archwilio ac effeithiolrwydd clinigol. Yn 2017, daeth yr Ymddiriedolaeth â'r ddwy swyddogaeth ynghyd, gan addasu'r ymagwedd ar gyfer cyflwyno ceisiadau archwilio a phennu pwyllgor i fonitro'r rhaglen archwilio drwy gydol y flwyddyn.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymwreiddio ei strategaeth rheoli risg newydd, ac yn parhau i ddatblygu ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a gymeradwywyd yn ddiweddar

63 Yn ddiweddar, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB). Wrth asesu yn erbyn fy adolygiad o Fframweithiau Sicrwydd Bwrdd sydd ar waith ar draws cyrff y GIG yng Nghymru, gwelir bod FfSB yr Ymddiriedolaeth yn trafod ystod o wybodaeth, ond y gellid ei gryfhau mewn sawl maes. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r FfSB yn barhaus, ac i sicrhau bod aelodau'n deall ac yn cefnogi ymagwedd yr FfSB yn llwyr.

64 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da wrth ymgorffori ei Strategaeth Rheoli Risg newydd ac o ran annog cysondeb wrth adnabod a rheoli risg.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer llywodraeth gwybodaeth, ac ar gyfer cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth newydd erbyn mis Mai 2018, ond mae ganddi fwy o waith i'w wneud

65 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu Gwarcheidwad Caldicott ac Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (USRG). Cydymffurfio â Caldicott: Mae Egwyddorion ar Waith (EaW) wedi gwella, ac mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi ennill dyfarniad pum seren. Cyflwynwyd papur yn amlinellu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) gerbron y Grŵp Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Profiadau Cleifion a Diogelwch ym mis Medi 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r angen i ddiweddaru polisïau allweddol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion, oherwydd bod risg i'r Ymddiriedolaeth wynebu dirwyon sylweddol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) os nad yw'n adolygu polisïau sydd wedi dyddio erbyn mis Mai 2018.

### Mae'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad wedi'u datblygu'n dda ac yn parhau i gryfhau, ond bydd hi'n bwysig sicrhau bod y rhain yn canolbwyntio mwy ar alwadau ambr o hyn allan, lle mae’r perfformiad yn dirywio

66 Yn ystod 2017, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth welliannau i'w Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad (Afiach) yn dilyn sylwadau a wnaed gennyf yn fy Adroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2016. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio i wella ei rheolaeth ar berfformiad eto yn 2017-18, gan gynnwys prynu dangosfwrdd electronig.

67 Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer galwadau coch yn parhau i wella ac yn rhagori ar y targed cenedlaethol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i reoli'r galw yn unol â'r llwybr pum cam. Fodd bynnag, mae perfformiad yn gysylltiedig â galwadau ambr wedi dirywio, gyda chleifion yn disgwyl yn hirach bob blwyddyn, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau yn y maes hwn.

## Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI i ganfod achosion o dwyll a gordalu, ond ceir cyfle i wella hyn yn sgil penodi swyddog atal twyll newydd yn ddiweddar

68 Ymarfer paru data dwyflynyddol yw'r NFI sydd o gymorth i ganfod achosion o dwyll a gordalu. Gwneir hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n ddull hynod effeithiol o ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd.

69 Cyflwynodd cyrff sy'n cymryd rhan yn ymarfer paru data cyfredol yr NFI ddata i'r fenter ym mis Hydref 2016. Rhyddhawyd y canlyniadau i'r cyrff hynny ym mis Ionawr 2017.

70 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn yr NFI, ac mae'n orfodol iddi wneud hynny. Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 1,791 o barau data drwy raglen we'r NFI. Mae'r data a gaiff eu paru yn amlygu anghysondebau a all fod o gymorth i ganfod gwallau ac achosion o dwyll wrth eu hadolygu. Er na ddisgwylir i sefydliadau adolygu'r holl barau data, mae rhai o'r parau cyfatebol wedi'u pennu'n 'barau a argymhellir'. Ystyrir bod y parau hyn yn rhai risg uchel, felly argymhellir y dylid eu hadolygu'n flynyddol. Roedd y parau data a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys 105 o barau a argymhellir. Mae rhaglen we'r NFI, sy'n cofnodi canfyddiadau adolygiad yr Ymddiriedolaeth o'i pharau data, yn dangos mai ychydig iawn o gynnydd yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi'i gwneud o ran adolygu'r parau data ar 20 Tachwedd 2017. Nid yw'r Ymddiriedolaeth ychwaith wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI yn rhan o'i threfniadau i atal a chanfod twyll.

71 Bydd hi'n bwysig i'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i adolygu'r parau y mae'n eu derbyn o'r ymarfer hwnnw, ac ymchwilio i'r camau'n brydlon, lle bo angen. Yn ddiweddar, penododd yr Ymddiriedolaeth swyddog atal twyll, ac mae'n disgwyl i'r penodiad hwn arwain at welliannau wrth reoli'r swyddogaeth atal twyll o fewn yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i adolygu'r parau data risg uchel. Mae'r Ymddiriedolaeth i fod i ddarparu data ar gyfer yr ymarfer NFI nesaf (NFI 2018-19) ym mis Hydref 2018.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da wrth ymdrin â mwyafrif y materion a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, ond mae'r newidiadau'n rhy araf wrth ymdrin â'r argymhellion sy'n weddill.

72 Roedd fy adroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2016 yn cynnwys 10 o argymhellion i'r Ymddiriedolaeth. Drwy fy ngwaith maes yn ystod yr Asesiad Strwythuredig eleni, gwelais fod mwyafrif yr argymhellion naill ai wedi'u cwblhau neu'n dangos cynnydd da. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw gynnydd o ran fy argymhelliad i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio â gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth a ragnodir ar gael i'r cyhoedd ac asesu cynnwys a hygyrchedd gwefan yr Ymddiriedolaeth. Rwyf felly wedi ailadrodd yr argymhelliad hwn yn Asesiad Strwythuredig eleni.

73 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i ymdrin ag argymhellion a chyfleoedd gwella o'm Hasesiad Strwythuredig yn 2016, bûm hefyd yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach yr Ymddiriedolaeth i ymateb i'm hargymhellion archwilio. Canfûm fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno sawl gwelliant i'w threfniadau i olrhain ymatebion rheolwyr i argymhellion archwilio a'i bod yn adrodd cynnydd yn ystod 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i annog aelodau'r tîm rheoli i gymryd perchnogaeth ar y rhestr olrhain, ac mae'r Pwyllgor Archwilio bellach yn gofyn i reolwyr perthnasol fod yn bresennol yn ei gyfarfodydd er mwyn ymateb i adroddiadau am ddiffyg sicrwydd yn gysylltiedig â'u hadran. Mae'r wybodaeth a gofnodwyd ar restr olrhain yr Ymddiriedolaeth fel arfer yn gyson â'n hasesiad o statws argymhellion Asesiad Strwythuredig 2017.

74 Gwelais hefyd fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion yr Adolygiad Sicrwydd Risg Clinigol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, ac a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng. Gwnaed sawl argymhelliad yn yr adroddiad ar feysydd yn gysylltiedig â phob un o chwech o ofynion craidd y Fframwaith. Roeddent yn tynnu sylw at y diffyg trafodaeth o fewn y Bwrdd ynghylch aeddfedrwydd y sefydliad o ran risg yn 2016, ac at yr angen i sicrhau bod camau lliniarol yn bodloni sgoriau targed yn gysylltiedig â risg, lle bo modd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i nifer o argymhellion a gaiff eu holrhain yn barhaus drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Profiadau Cleifion a Diogelwch.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i welliant parhaus, ond nid yw'n gweithredu newidiadau yn ddigon cyflym

75 Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig bûm yn asesu defnydd yr Ymddiriedolaeth o adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd trefniadau cynllunio a rheoli'r gweithlu, rheoli ystadau ac asedau, ac Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth. Eleni, cynhaliais hefyd adolygiad dilynol o ganfyddiadau ac argymhellion archwilio mewn ymateb i'r adroddiad Materion a Godwyd mewn Gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2015. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

### Mae gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau'r ar gyfer ei hystâd, ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynllunio'r gweithlu, ond ceir heriau o hyd yn gysylltiedig â rheoli asedau ac absenoldeb salwch

76 Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Dengys y gwaith hwn fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd mewn sawl maes yn gysylltiedig â'r defnydd o adnoddau, yn enwedig o ran cynllunio'r gweithlu, cynllunio ystadau mewn modd strategol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, er cyflawni gwaith wedi'i dargedu yn ystod y flwyddyn, nid yw'r cyfraddau absenoldeb salwch wedi gostwng yn unol â chynlluniau'r Ymddiriedolaeth, ac yn rhan o'm gwaith ar y Memorandwm Cyfrifon Ariannol, canfûm sawl problem yn gysylltiedig â rheolaeth yr Ymddiriedolaeth ar asedau. Ceir crynodeb o'm prif ganfyddiadau yn Nangosyn 2.

Dangosyn 2: cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio mewn meysydd gwasanaeth penodol

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ynghylch ffactorau galluogi o'r asesiad strwythuredig ar gyfer y defnydd o adnoddau.

| Mater | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Cynllunio'r gweithlu | Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei threfniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu, a llwyddodd i wella agweddau ar reoli'r gweithlu, ond mae lleihau'r gyfradd absenoldeb salwch yn parhau i fod yn her gan mai 7% oedd y gyfradd honno ym mis Awst 2017 yn erbyn targed o 5.9%. |
| Ystadau ac asedau | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyfleu ei gweledigaeth drwy Raglen Amlinellol Strategol gymeradwy, ac mae'n ceisio gwella cywirdeb a chysondeb ei threfniadau ar gyfer rheoli asedau drwy gaffael System Rheoli Asedau. |
| TGCh a'r defnydd o dechnoleg | Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n frwd i foderneiddio drwy wella ei systemau technolegol, ond mae'r gefnogaeth ar gyfer hynny'n brin oherwydd pwysau ar adnoddau. |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth | Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i gydweithio â phartneriaid ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn creu sail i'w strategaeth hirdymor. |

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau priodol i weithredu'r argymhellion a wnaed gennyf yn adroddiad Rhagfyr 2015 mewn ymateb i bryderon gan Aelod o'r Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw wedi gweithredu'n ddigon cyflym er mwyn ymateb i argymhellion archwilio mewnol ynghylch cyfarpar sydd wedi dyddio

77 Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf hefyd wedi cyflawni gwaith archwilio dilynol er mwyn asesu cynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth ymdrin â phryderon ac argymhellion a godai o waith archwilio blaenorol.

78 Ym mis Rhagfyr 2015, adroddais ganfyddiadau fy adolygiad o bryderon a godwyd gan Aelod Cynulliad (AC). Roedd a wnelo'r pryderon hyn â phriodoldeb a'r gwerth am arian yn gysylltiedig â rhai o arferion yr Ymddiriedolaeth. Aelodau o staff yr Ymddiriedolaeth a dynnodd sylw'r AC at y pryderon hynny.

79 Yn fy adolygiad, canfûm fod mwyafrif y pryderon yn ddi-sail, ond nad oedd unrhyw reswm i amau diffuantrwydd y staff wrth godi'r pryderon hynny. Roedd amryw o'r pryderon wedi codi gan nad oedd yr aelodau hynny o staff a'u cododd yn ymwybodol o newidiadau mewn polisi gweithredol, neu gan nad oedd ganddynt ddealltwriaeth lawn o systemau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth.

80 Roedd yr adroddiad yn cynnwys sawl argymhelliad yn gysylltiedig â'r angen i gynyddu effeithiolrwydd strategaeth a mecanweithiau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cyfathrebu â staff. Argymhellais hefyd y dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal adolygiad pellach o rai meysydd lle nad oeddwn yn gallu bod yn ddigon sicr bod y pryderon yn ddi-sail.

81 Yn fy adolygiad dilynol o gynnydd a wnaed, gwelais fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau priodol i ymdrin â'r holl argymhellion a wnaed yn 2015. Yn yr achosion hynny lle'r oeddwn wedi argymell gwaith pellach gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, mae'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd wedi cwblhau'r gwaith hwnnw. Er imi gael hyd i rai gwendidau o bwys mewn rheolaeth fewnol drwy'r gwaith ychwanegol hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau a ganfuwyd.

82 Yn yr adroddiad dilynol, canfuwyd cynnydd da er mwyn ymdrin ag argymhellion y Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd ynghylch cael gwared â cherbydau. Fodd bynnag, cafwyd pryder ynghylch llithriant sylweddol y dyddiadau a gytunwyd ar gyfer gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd ar waredu cyfarpar darfodedig nad oedd ei angen mwyach, yn enwedig gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at ddiffygion difrifol yn y trefniadau gwaredu.

### Mae trefniadau comisiynu cydweithredol wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran y gwasanaethau ambiwlans argyfwng yng Nghymru; wrth i'r trefniadau aeddfedu, fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid.

83 Yn fy adolygiad o drefniadau Cymru gyfan ar gyfer comisiynu gwasanaethau ambiwlans argyfwng canfûm fod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng (PGAA) wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig, fel datblygu model [2]CAREMORE® Fodd bynnag, nid yw'r strwythurau na'r rolau i sicrhau atebolrwydd yn glir. Gwelais fod lle i egluro rolau'r PGAA, Llywodraeth Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans mewn perthynas â pherfformiad a chyllid y gwasanaeth ambiwlans argyfwng, a moderneiddio'r gwasanaeth. Er bod ffurfio PGAA wedi cefnogi perchnogaeth ar wasanaethau ambiwlans argyfwng ar raddfa Cymru gyfan, nododd fy nhîm fod angen i'r PGAA wneud mwy i hyrwyddo gweddnewid gwasanaethau. Ar ben hynny, nid yw'r strwythur is-grwpiau, sydd yn sail i'r PGAA, yn ddigon eglur na'i ddibenion yn ddigon clir. Mae hynny'n amharu ar bresenoldeb staff byrddau iechyd a gallu'r is-grwpiau i gyfrannu mewn modd ystyrlon.

[2]Dull comisiynu wedi'i greu yng Nghymru yw model CAREMORE®. Mae ei nod masnach cofrestredig yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar ran GIG Cymru.

84 Mae partneriaid yn cefnogi'r model comisiynu ond mae cyflymder y byrddau iechyd wrth ysgogi'r newidiadau angenrheidiol  i'w alluogi yn amrywio, ac nid yw'r model yn cynnwys ystyriaeth o weithgarwch rhanbarthol neu drawsffiniol. Drwy fy ngwaith, gwelais barodrwydd cyffredinol o du'r Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau ambiwlans. Fodd bynnag, mae lefel y berchnogaeth ymhlith byrddau iechyd ar berfformiad ambiwlansys argyfwng ac ar foderneiddio llwybrau yn amrywio. Ar ben hynny, canolbwyntir yn bennaf ar ran olaf y llwybr ambiwlans, ee, trosglwyddo o'r ambiwlans. Adroddais fod yr Ymddiriedolaeth yn ymateb mewn modd priodol i gytundebau a lunnir gan y PGAA. Serch hynny, mae'r graddau y mae byrddau iechyd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn CAREMORE® yn amrywio, ynghyd â'u dealltwriaeth o'r gofynion hynny.

85 Canfûm drwy fy ngwaith fod trefniadau comisiynu yn sail i rai gwelliannau i'r gwasanaethau ambiwlans argyfwng. Roedd cyflwyno'r model newydd ar gyfer ymateb clinigol wedi cynorthwyo partneriaid i gyrraedd targedau perfformiad Llywodraeth Cymru, ac mae potensial am welliannau pellach o ran perfformiad yn sgil mentrau eraill y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Mae newidiadau a gynllunnir i wasanaethau a gwaith monitro perfformiad partneriaid yn fwyfwy cyson â'r Llwybr Gofal Cleifion Ambiwlans (a elwir yn fodel pum cam). Serch hynny, roedd angen mwy o gysondeb ar draws byrddau iechyd, ac roedd hi'n rhy fuan i ddweud a oedd hyn yn cael unrhyw effaith. Yr oedd cyfres llawer gwell ac ehangach o fesurau a oedd yn canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad drwy'r Dangosyddion Ansawdd Ambiwlans. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy o waith er mwyn deall canlyniadau a phrofiadau cleifion yn llawn wrth iddynt dderbyn gofal ambiwlans argyfwng.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Dangosyn 3: Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2017.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 1 Mehefin 2017 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | 7 Rhagfyr 2017 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng | Ebrill 2017 |
| Materion a Godwyd mewn Gohebiaeth ag Archwilydd Cyffredinol Cymru: Gwaith Dilynol ar Ganfyddiadau ac Argymhellion Archwilio | Tachwedd 2017 |
| Asesiad Strwythuredig 2017 | Rhagfyr 2017 (Drafft) |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2017 | Mis Mawrth 2017 |

Dangosyn 4: gwaith archwilio perfformiad yn dal ar y gweill

Mae un archwiliad perfformiad lleol yn dal ar y gweill o fewn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir hwn yn y tabl a ganlyn, ynghyd ag amcan o ddyddiad cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcan o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| **Mabwysiadu Egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**<br>Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gorff a ragnodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ond y mae wedi ymrwymo i fabwysiadu'r egwyddorion ar ddatblygu cynaliadwy. Bydd y gwaith yn creu darlun o gynnydd yr Ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â'r ymrwymiad hwn.<br>Bydd fy ngwaith yn cymharu ymagwedd yr Ymddiriedolaeth â'r modd y mae cyrff a ragnodwyd yn ymateb i'r Ddeddf, o'r gwaith a wnaed yn sail ar gyfer fy sylwebaeth dros gyfnod o flwyddyn ynghylch gweithredu'r Ddeddf. Byddaf hefyd yn ceisio tynnu sylw at feysydd lle gallai cyfraniad ehangach yr Ymddiriedolaeth fod yn werthfawr. | Mawrth 2018 |

# Atodiad 2

## Y Ffi Archwilio

Yng Nghynllun Archwilio 2017, nodwyd y ffi archwilio arfaethedig o £150,118 (heb gynnwys TAW). Fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yw £159,739. Yr hyn sydd wrth wraidd y cynnydd yw gwaith archwilio ariannol ychwanegol a gwblhawyd yn gysylltiedig ag eiddo, offer chyfarpar, yr adroddiad ar daliadau a datgeliadau partïon cysylltiedig. Y ffi ychwanegol yw £9,621.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales